

# CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

## Cofnodion Cyfarfod y Cyngor - 7.00 pm, Dydd Mawrth 23 Ionawr 2024

**Yn bresennol:** Cynghorydd Celfyn Furlong – Cadeirydd

**Cynghorwyr:** Gwilym O. Jones, Siân Enfys Jones, Sharon Parry, Einir Thomas, Gareth Thomas, Evan Wyn Robertson a Dyfed Williams.

### Hefyd yn bresennol: Mai Owen – Clerc

1. **Ymddiheuriadau:** Cyng. Gordon Owen, William Victor Owen a Ken Taylor (Cyng. Sir)
2. **Datganiad o Ddiddordeb** – dim.
3. **Cofnodion y cyfarfod blaenorol**  
Derbyniwyd cofnodion 21 Tachwedd 2023 fel rhai cywir. (cynnig Cyng. D. Williams, eilio Cyng. E. W. Robertson.)
4. **Materion yn codi o'r cofnodion.**
  - 4.1 Chwarae Field: Dim byd pellach i'w adrodd.
  - 4.2 Diffibriliwr: Cytunwyd y dylai'r clerc brynu diffibriliwr LED Zoll AED Plus gyda chabinet allanol ar gyfer Llanfihangel yn Nhowyn - amcan bris £1561.20. Byddai un arall yn cael ei brynu ar gyfer Caergeiliog pan ddaw caniatâd ffurfiol am y lleoliad.
  - 4.3 Goleuadau Stryd Ffordd Minffordd – Bu'r Cadeirydd a'r clerc mewn cyfarfod gyda swyddogion o'r Cyngor Sir a chafwyd cadarnhad fod modd gosod goleuadau ar ymyl y glaswellt gyferbyn â'r palmant ar Ffordd Minffordd ond roedd angen gweld pa wasanaethau oedd yno ac ail edrych ar y costau gosod.
  - 4.4 Neuadd y Pentref: dim byd pellach i'w adrodd.
  - 4.5 Unrhyw fater arall yn codi o'r cofnodion:  
Byddai'r gwaith ar sedd lloches bws Llanfihangel yn Nhowyn wedi ei wneud o fewn pythefnos.
5. **Penderfyniadau Cynllunio**  
FPL/2023/195 (17 o Dai ) Ffordd Minffordd, Llanfihangel-yn-Nhywyn, Caergeiliog – caniatâd. Mynegwyd siom nad oedd lle i chwarae yn y cynllun.
6. **Ceisiadau Cynllunio**
  - 6.1 **LUE/2023/32 Parc Carafanau Trewan Sands, Rhosneigr.**  
Cais am Dystysgrif Datblygiad Cyfreithlon ar gyfer defnydd presennol y tir fel maes carafanau am fwy na 10 mlynedd – dim sylwadau, roedd y Swyddogion Cynllunio mewn gwell sefyllfa i ddelio â hwn.

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

### 6.2 HHP/2024/4 Tŷ Newydd, Llanfair yn Neubwll

Cais llawn ar gyfer addasu ac ehangu yn cynnwys codi uchder y to i greu ystafelloedd ar y llawr cyntaf ynghyd a chodi balconi. – Mynegwyd pryder am faint y datblygiad, byddai'n newid cymeriad yr eiddo yn llwyr. Pwysleisiwyd bod angen sicrhau bod ymgynghoriad llawn gyda'r preswylwyr cyfagos.

### 7. Materion Ariannol

Cyflwynodd yr SAC yr adroddiad ariannol am y cyfnod o 1.11.2023 i 31.12. 2023 ynghyd â chymodi banc, datganiadau a chopïau o'r cyfrifon.  
Cyfrif cyfredol £ 34,915.64, Cyfrif Cadw £ 4002.75.

### 7.1 Praesept 2024/25

Cafwyd trafodaeth fanwl am ragolygon o'r cyfrifon hyd at 31 Mawrth 2024, y gwariant a ragwelir ar gyfer y flwyddyn i ddod a'r cronfeydd wrth gefn disgwylidig ar 31 Mawrth 2024. Cytunwyd i ofyn am praesept o £19,000 ar gyfer 2024/25. Hwn oedd yr ychwanegiad cyntaf ers sawl blwyddyn.

### 8. Taliadau: wedi'u nodi / cytuno.

Rhagfyr:			
Cyflwg (Tachwedd)	£423.84		
Ionawr:			
Cyflwg (Rhagfyr)	£423.84	Rhent y Neuadd Bentref	£450
Archwiliad Allanol	£200		

Cytunwyd hefyd y byddai'r Clerc / SAC yn talu unrhyw anfonebau a dderbyniwyd mewn perthynas â gwariant a gytunwyd yn flaenorol.

### 9. Gohebiaeth – cyflwynwyd a nodwyd y canlynol.

9.1 Adnewyddu Rhedfa Camp Fali

9.2 Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol - Chwefror 2024

9.3 Rhag-rybudd: Cyfarfod Fforwm Cyswllt Cyngorau T & Ch 6.30pm 6.2.2024

9.4 Cyflwyniadau: Fforwm Cyswllt Cyngorau Tref a Chymuned 14.12.2023

9.5 Gwyllo Cyflymder Cymunedol

9.6 Cylchlythyr Archwilio Cymru - Tachwedd 2023

9.7 Parc Solar Traffwll - Diweddariad

10. Hyfforddiant – rhestr o gyfleoedd hyfforddi wedi'u dosbarthu.

### 11. Dogfennau Statudol

Cytunwyd i dderbyn adroddiad blynyddol 2022/23.

## CYNGOR CYMUNED LLANFAIR YN NEUBWLL

---

### 12. Adroddiadau Aelodau

- 11.1 Cyng. Dyfed Williams - yn dal i bryderu am faint o ddŵr oedd i'w weld wrth Lon Tŷ Main. Byddai'r clerc yn atgoffa CSYM fod angen rhoi sylw i hyn.
- 11.2 Cyng. Sharon Parry – yn dweud fod graffiti ar y lloches bws wrth yr Eglwys, roedd Cyng. Celfyn Furlong am edrych ar y cwbl i weld pa rai o'r lleill oedd angen eu glanhau hefyd.
- 11.3 Adroddwyd bod y gilfan wrth Fwthyn Ceirios yn glir ar y pryd ond roedd cerbyd wedi ei adael yno heb ei olwynion yr wythnos cynt. Roedd pryder hefyd am nifer y cerbydau busnes oedd wedi parcio yn y lle parcio is lawr i'r Neuadd. - cytunwyd i fonitro'r ddau safle ac adrodd yn ôl i'r Cyngor Sir.

### 13. Cyfarfod nesaf – 20 Chwefror 2023.

: